# Y Synhwyrau

## Prosiect Dysgu Dychmygus i Blant CA2 Isaf

Cornerstones Cwricwlwm

The Learning Partnership



| YMDRINIAETH TESTUN: Y Synhwyrau | |
|---|---|
| Testun Ffocws PDD | Gwyddoniaeth |
| Genre Ysgrifennu PDD | Barddoniaeth- Cerddi i'w Perfformio a Chaligramau |
| Celf a Dylunio | Golau a Lliw |
| D & T | Dylunio |
| Hanes | Dyfeisiau |
| TGCh | Ymchwil a Chyflwyniad |
| Cerddoriaeth | Cyfansoddi |
| ABCh | Cyfranogi |
| Gwyddoniaeth | Golau a Sain |

## Trosolwg o'r PDD

**Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar wyddoniaeth ac yn dysgu plant am olau a sain a sut mae'r rhain yn teithio. Wrth wraidd y prosiect hwn mae plant yn dysgu sut i ysgrifennu cerddi ar y thema golau a sain a dysgu sgiliau ychwanegol mewn cofnodi gwyddonol ac ysgrifennu esboniadol.**

**Yn y Cam Arloesi mae plant yn cymhwyso eu sgiliau a'u dealltwriaeth trwy ddefnyddio golau a sain i greu ardal synhwyraidd ryngweithiol.**

**Yn y prosiect hwn bydd y plant yn dysgu:**

- Sut mae sain yn teithio a sut y gellir gwneud synau'n uwch neu'n dawelach;
- Sut mae clustiau a llygaid yn gweithio ac enwau gwahanol rannau'r glust a'r llygad;
- Sut y ffurfir cysgodion a sut mae'r rhain yn newid yn ôl safle'r haul;
- Am bobl a dyfeiswyr pwysig sydd wedi hybu technoleg golau a sain;
- Sut mae absenoldeb golwg a chlyw yn effeithio ar fywyd pob dydd pobl;
- Sut i ddefnyddio golau a sain yn greadigol mewn celf, cerddoriaeth a chyfrwng creadigol eraill megis ffotograffiaeth;
- Sut i ysgrifennu cerddi ar thema.

Hawlfraint © 2010 Addysg Cornerstones Cyfyngedig